**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus Agored Nos Lun Medi 15fed 2014 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw gyda Chwmni Harlequin Group i gael mwy o wybodaeth am ddatblygiad arfaethedig i godi mast telegyfathrebu yn Pen y Fron, Gwytherin (Cais Cynllunio Rhif 0/40996)

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is Gadeirydd D Gwynfor Davies. Croesawodd Mr Will Osborne o gwmni Harlequin a Mr Peter Williams, Llywodraeth Cymru i'r cyfarfod ynghyd ag aelodau'r cyhoedd.

Esboniodd Mr Osborne nod y Llywodraeth o gyrraedd nifer helaeth o lefydd yn y wlad gyda signal ffôn symudol a'u bod yn cyfrannu yn helaeth yn ariannol at y prosiectau. Esboniodd y byddai'r mast arbennig hwn yn cyrraedd 25 'notspot' a 48 o anheddau a ffyrdd o gwmpas Gwytherin a byddai'r dechnoleg ddiweddaraf o ganlyniad yn medru cyrraedd yr ardal.

Mynegwyd pryder gan drigolion ardal Pennant yng Ngwytherin na fyddai'r signal yn cyrraedd eu tai a'u busnesau a gofynnwyd a fedrid edrych i mewn i hynny. Mae'n debyg na fyddai cyfle fel hyn yn dod eto. Gofynnwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn medru cynorthwyo trwy sicrhau bod tua wyth o fusnesau yn y cwm yn medru manteisio ar dechnoleg fodern yn eu gwaith bob dydd. Byddai hynny o ganlyniad yn hybu parhad yr iaith Gymraeg yn yr ardal arbennig hon.

Gofynnwyd a fyddai modd gosod mast talach yno er hwyluso'r signal neu efallai osod 'booster' neu loeren arall i gario'r signal i'r cwm. Hefyd gofynnwyd a fyddai modd gosod lloerennau eraill ar y mast e.e. er mwyn gwella derbyniad gwael Radio Cymru yn yr ardal.

Roedd y cynrychiolydd yn awyddus i dderbyn nifer o awgrymiadau gan bobl leol trwy e-bost.

Diolchwyd i'r siaradwyr am eu presenoldeb ac i'r cyhoedd am fynychu.
Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 yh